**Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026**
**352. Beirniadaeth Rhyddiaith – Blwyddyn 3 a 4,**

**Testun: 'Colli Dant'**

Roedd yn bleser mawr darllen y darnau ar y testun 'Colli Dant' eleni. Daeth 65 ymgais i law gyda'r mwyafrif yn trafod y profiad personol o golli dant mewn amrywiol ffyrdd. Er mai testun syml ar yr olwg gyntaf yw hwn, llwyddodd llawer ohonoch i greu straeon difyr, doniol ac anturus gan fynd a ni ar daith i fyd hud a lledrith y tylwyth teg.

Roeddwn i'n chwilio am wreiddioldeb a dychymyg, cymeriadau diddorol a stori oedd yn datblygu'n llawn mewn iaith mor gywir â phosib.

Roedd hi'n braf hefyd gweld cymaint o hiwmor. Disgrifiwyd sefyllfaoedd doniol fel ceisio tynnu dant allan, anwybyddu nain oedd yn arbenigwraig ar dynnu dannedd, ymweliadau anturus, neu golli'r dant mewn llefydd annisgwyl. Llwyddodd y darnau gorau gadw fy niddordeb trwy ddefnyddio disgrifiadau manwl.

O ran disgrifiadau, roedd llawer ohonoch yn llwyddo i ddisgrifio'r teimlad o ddant rhydd yn siglo, y nerfusrwydd a'r rhwystredigaeth cyn iddo ddod allan, a'r cyffro ar ôl hynny. Roedd nodweddion arddull megis ailadrodd, cyffelybiaethau, amrywio brawddegau ac ansoddeiriau amrywiol yn ychwanegu'n fawr at ansawdd y straeon.

Roedd y tri a ddaeth i'r brig yn cynnwys antur, dychymyg a ffresni mewn iaith gywir iawn ar y cyfan. Dyma bwt am y tri.

Mae *Merch y Mynydd* yn mynd a ni ar antur i wlad y tylwyth teg er mwyn casglu'r dannedd i adeiladu castell. Cawn ddisgrifiadau o'r dylwythen deg yn mynd o amgylch dalgylch Crymych yn casglu dannedd, ac mae cyffro ar y diwedd wrth i ni boeni a yw'r dylwythen yn cyrraedd mewn pryd cyn iddi wawrio.

Mae *Ela* yn mynd a ni i Wlad y Dannedd Coll gyda phont wedi ei gwneud o frwshys dannedd a'r afon o ddŵr mintys. Mae'r dafodiaith yn llifo a'r hiwmor, yr onomatopeia a'r idiomau yn cyfoethogi'r stori. Roeddwn i'n hoffi'r cyffelybiaethau a brawddegau byr megis "Diflannodd. Fel hud. Fel ninja bach." Mae yma ddawn naturiol wrth adrodd stori a'r ansoddeiriau'n ychwanegu at yr awyrgylch hudolus.

Mae *Popi Pinc* yn cynnwys nid yn unig stori afaelgar, ond hefyd lythyr gan y Robin Goch a phennill yn cael ei hadrodd gan leisiau o'r afon. Ceir cyfeiriadau cyson at fyd natur; adar a blodau, a'r Dylwythen Danadlen wedi caethiwo'r tylwyth teg a dwyn yr allwedd aur. Mae'r iaith yn gyfoethog o idiomau, cyffelybiaethau, ansoddeiriau, cwestiynau rhethregol, onomatopeia ac ailadrodd er mwyn cyfleu cyffro'r digwyddiadau. Wrth i Glesni geisio achub y tylwyth teg cawn antur a chyfeillgarwch mewn iaith gywir.

Nid penderfyniad hawdd oedd gwahaniaethu rhwng y tri a ddaeth i'r brig, ond dyma'r canlyniad:

1af: Popi Pinc

Ail: Ela

3ydd: Merch y Mynydd

Llongyfarchiadau mawr i Popi Pinc a da iawn bawb am gystadlu. Daliwch ati i ysgrifennu ac i ddefnyddio eich dychymyg yn y dyfodol.